


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Cyflawni Newid Parhaol

## Cymorth i Ferched Cymru Strategaeth 5 Mlynedd 2024 - 2029

# Rhagair

Rydym ni'n falch i allu rhannu strategaeth newydd Cymorth i Ferched Cymru gyda chi. Nid tasg hawdd yw dod o hyd i ffyrdd newydd i fynd i'r afael â'n cenhadaeth graidd, sef dileu Trais yn erbyn Menywod a Merched yng Nghymru unwaith ac am byth. Mae wedi bod yn wych gweld ymrwymiad a chydweithio ymhlith staff, aelodau a rhanddeiliaid Cymorth i Ferched Cymru, sydd wedi golygu ein bod ni wedi cyrraedd ble'r ydym ni heddiw. Mewn cyfnod o wasgedd ar gyllid y sector cyhoeddus, mae'n bwysicach nag erioed bod gan y sector arbenigol yng Nghymru lais cryf yn y Senedd ac yn San Steffan, ac mae'r strategaeth ddiweddaraf yn cadarnhau ein hymrwymiad i'r gynrychiolaeth ac i'r cymorth hwnnw i'n harbenigwyr ar y rheng flaen.

Er ei bod yn bosibl y bydd geiriad penodol y strategaeth yn newid, mae ein huchelgais sylfaenol yn parhau'n gyson, wedi'i wreiddio yn ein gwerthoedd ffeministaidd a'r gred y dylai pob Goroeswr allu cael mynediad at wasanaethau rhagorol sy'n ymateb i'w hanghenion a'u hamgylchiadau, a gweithio gyda nhw mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, a arweinir gan anghenion ac ar sail trawma. Rywbryd yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd gwasanaethau o'r fath yn ddiangen, ond tan hynny, bydd Cymorth i Ferched Cymru'n parhau i gyflwyno'r achos dros ymateb system-gyfan cydlynol a chynhwysfawr i VAWDASV er mwyn cyflawni Newid Sy'n Para.

**Kirsty Palmer**, Cadeirydd Ymadawol

**Julie Mcarthy**, Cadeirydd Newydd






Rydym ni'n sefydliad ffeministaidd, gyda'n gwerthoedd yn seiliedig ar ymrwymiadau i hawliau dynol, gwrth-wahaniaethu a rhyddid rhag gormes.

# Pwy ydym ni

Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu pob math o drais yn erbyn menywod a merched. Ni yw'r corff ymbarél i wasanaethau arbenigol annibynnol y trydydd sector ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym ni'n cefnogi 21 o sefydliadau arbenigol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau.

Rydym ni'n cefnogi'r farn sy'n seiliedig ar dystiolaeth bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn achos ac yn ganlyniad i safle anghyfartal menywod a merched yn ein cymdeithas. Mae'n drosedd yn erbyn hawliau dynol ac mae modd ei atal.

Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda Women's Aid England, Women's Aid Northern Ireland a Scottish Women's Aid i ysgogi gweithredu cyfunol ac wedi mabwysiadu ymagwedd pedwar ffederasiwn gref at ein cenhadaeth.

# Ein llwyddiannau

Rydym ni'n cydnabod bod ffordd bell i fynd o hyd i gyflawni byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag trais a cham-drin, ond gwnaed cynnydd. Gellir gweld yr effaith rydym ni wedi'i gael dros y 45 o flynyddoedd ers sefydlu Cymorth i Ferched Cymru mewn darpariaeth ac ymrwymiad o ran deddfwriaeth ledled y genedl. Byddwn yn parhau i gyhoeddi adroddiadau effaith blynyddol, ac yn mesur ein cynnydd at y nod o gyflawni annibyniaeth a rhyddid i bawb, gan sicrhau ei bod yn ddiogel i bawb arddel eu hawliau dynol, a'u bod yn gallu ffynnu a chyfranogi'n weithredol yn y gymdeithas.

# Cyd-destun a rhagolwg strategaeth

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio trais yn erbyn menywod, yn enwedig cam-drin domestig a thrais rhywiol fel pryder iechyd cyhoeddus byd-eang pwysig o faint epidemig.[1]

Yn 2023 - 2024 rhoddodd ein aelod-wasanaethau gefnogaeth i 739 o oroeswyr yng Nghymru mewn lloches llety, fodd bynnag cafwyd 712 nad oedd modd iddynt fanteisio ar gefnogaeth mewn lloches.[3] Cafwyd brig o ran atgyfeiriadau at wasanaethau cymunedol ac mae'r rhain wedi gwastadau, ond maent yn dal i fod 17.8% yn uwch na lefelau cyn y pandemig.[3] Mewn pôl diweddar o aelodau, nododd 70% eu bod wedi profi galw uwch am wasanaethau, yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn ogystal, mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru gyda Cymorth i Ferched Cymru yn ei chynnal, wedi gweld cynnydd yn y galw bob blwyddyn. Yn 2023 - 2024 cafwyd cynnydd o 33% yn y nifer o negeseuon ebost i'r llinell gymorth a chynnydd o 43% mewn negeseuon testun. Mae data chwarterol diweddar y llinell gymorth yn dangos bod hyd galwadau ar gyfartaledd wedi cynyddu 62% sy'n awgrymu bod lefel cymhlethdod y cymorth hefyd yn cynyddu.[3]

Yn 2020 cyflwynom ni lasbrint ar gyfer atal VAWDASV.[4] Mae'n galw am weithredu tri math o ymyriad atal: cynradd, eilaidd a thrydyddol mewn modd cyson a chydlynol. Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod yn cynnwys nid yn unig cefnogi goroeswyr ond hefyd herio a datgymalu'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n golygu ei fod yn parhau. Y dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n sail i'n huchelgais strategol.

Amcangyfrifir bod o ddeutu tair miliwn o fenywod ledled y DU yn profi treisio, trais domestig, priodas dan orfod, stelcio, cam-fanteisio rhywiol, masnachu pobl a mathau eraill o drais bob blwyddyn.[2]

Mae hyn yn cyfateb â phoblogaeth Cymru.

1 Violence against women: a 'global health problem of epidemic proportions' (who.int)
2 Ending violence against women. From words to action. Study of the Secretary-General. 2006
3 State of the Sector 2023-24 - CYM (welshwomensaid.org.uk)
4 A-Blueprint-for-the-Prevention-of-VAWDASV.pdf (welshwomensaid.org.uk)



## Atal Cynradd

**Y nod yw atal trais cyn iddo ddigwydd.**

Newid agweddau ac ymddygiad a/neu feithrin gwybodaeth a sgiliau unigolion.

Herio a diwygio strwythurau, arferion a normau cymdeithasol o fewn perthnasoedd, cymunedau, sefydliadau a chymdeithas yn ehangach.

## Atal Eilaidd

**Targedu arwyddion cynnar o gyflawni neu brofi VAWDASV.**

Newid agweddau ac ymddygiad unigolion.

Cynyddu sgiliau unigolion a grwpiau.

## Atal Trydyddol

**Yn cynnwys diogelu a chymorth yn dilyn achos o VAWDASV.**

Cefnogaeth yn seiliedig ar anghenion a chryfderau a gaiff ei lywio gan drawma.

Ymateb ac atal achosion pellach, dwysáu a chanlyniadau niweidiol.




# Pwy sydd wedi llywio'r strategaeth?

Datblygwyd y strategaeth drwy ryngweithio, gwrando a myfyrio.

Profwyd pob uchelgais gyda staff, aelodau a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cyn iddynt gael eu cadarnhau'n derfynol. Mae pob uchelgais yn perthyn llawn cymaint iddyn nhw ag i ni. Roedd yn bwysig i ni fod pob uchelgais yn atseinio ac yn cael cefnogaeth oherwydd gyda'n gilydd byddwn yn creu newid.

# Sut aethon ni ati i ffurfio'r strategaeth?

Er mwyn cyflawni'r newid rydym ni'n awyddus i'w weld i oroeswyr ledled Cymru, sefydlwyd Damcaniaeth Newid sy'n edrych ar sut y gallwn fyw mewn byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

# Ein damcaniaeth newid

## Deall y broblem

Mae pob math o VAWDASV wedi'i wreiddio mewn perthnasoedd anghyfartal rhwng y rhywiau mewn cymdeithas ac yn fynegiant o hynny.

Caiff agweddau a chredoau sy'n cydoddef a/neu'n normaleiddio VAWDASV eu ffurfio gan strwythurau, arferion a normau cymdeithasol sy'n caniatáu i anghydraddoldebau rhywedd a chroestoriadol barhau.

## Datrysiad

**Atal cynradd** strategaethau wedi'u hanelu at atal trais cyn iddo ddigwydd.

**Atal eilaidd** targedu arwyddion cynnar o gyflawni a phrofiadau o VAWDASV.

**Atal trydyddol** yn cynnwys cefnogaeth, triniaeth a diogelwch a roddir i bobl sydd wedi profi VAWDASV ar ôl iddo ddigwydd.

## Gweithredu

**Atal VAWDASV** rhag digwydd yn y lle cyntaf.

**Dylanwadu ar newid** i ddileu pob math o VAWDASV.

**Galluogi aelodau** i gyflwyno ymateb cynaliadwy, effeithiol a chroestoriadol i VAWDASV.

**Arwain cydweithio** a phartneriaeth sydd o fudd i'r sector a goroeswyr VAWDASV.

## Canlyniad

Byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag cam-drin domestig a mathau eraill o drais a cham-drin

Gyda'r camau hyn yn ein meddwl, mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu y gallwn gyflawni byd sy'n ddiogel i bawb.

# Ein huchelgeisiau

"Fel gydag iechyd, felly hefyd gyda throseddu – mae atal yn well na iachau" - Ash Sarkar

Mae mynd i'r afael ag achosion gwaelodol VAWDASV yn golygu gweithio gydag unigolion, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau i feithrin diwylliant o gydraddoldeb a pharch.

Drwy ddatblygu'r strategaeth hon mae pobl a sefydliadau wedi dweud wrthym nad oes digon o ffocws ar atal. Rydym ni am newid hynny.

- Byddwn yn adeiladu mudiad sy'n rhannu ein gweledigaeth i greu cymdeithas sy'n rhydd rhag trais yn erbyn menywod a merched, a lle gall menywod a merched gyflawni eu potensial llawn.
- Byddwn yn sicrhau bod y modelau atal gorau yn cael eu deall yn iawn a hefyd yn cael eu rhoi ar waith drwy dargedu buddsoddi sy'n ategu cyllid ar gyfer darparu gwasanaeth hanfodol.
- Byddwn yn newid y normau a'r agweddau diwylliannol, cymdeithasol a strwythurol sy'n galluogi trais yn erbyn menywod a merched.
- Byddwn yn llywio ac yn arwain cyrff cyhoeddus, comisiynwyr ac eraill ar ymagwedd cymdeithas gyfan at greu Newid sy'n Para.

## 1

## Atal VAWDASV rhag digwydd yn y lle cyntaf.



2

Dylanwadu ar newid.



# Ein huchelgeisiau

“Cyfrinach newid yw canolbwyntio eich holl egni nid ar ymladd yr hen bethau, ond ar adeiladu’r pethau newydd.” - Socrates

Ysgogi arloesi a dylanwadu ar newid systemau i ddileu pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- Byddwn yn gosod yr agenda ar gyfer newid yng Nghymru ac yn ein dal ein hunain ac eraill yn atebol am gyflawni gweithredu.
- Byddwn yn creu system ymchwil ac arloesi rhagorol sy’n trawsnewid ffyrdd o feddwl, gwasanaethau a bywydau.
- Byddwn yn meithrin perthnasoedd effeithiol i ddylanwadu ar y bobl iawn, ar yr adeg iawn, yn y lle iawn i greu newid.
- Drwy arbenigedd ein haelodau a phrofiad byw’r rhwydwaith goroeswyr, byddwn yn sicrhau bod penderfyniadau’n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth.
- Byddwn yn eiriol dros gyllid cynaliadwy y gellir ei ragweld sy’n cydnabod anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

# Ein huchelgeisiau

“Ar ein pen ein hunain gallwn wneud cyn lleied, ond gyda’n gilydd gallwn wneud cymaint.”
- Helen Keller

Mae ein haelodau wrth graidd ein gwaith.

Maen nhw’n cyflwyno cymorth anhygoel sy’n achub bywydau i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol bob dydd. Er mwyn cefnogi ein haelodau byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar fod yn sefydliad dibynadwy, sy’n galluogi, a’r un a ddewisir gyntaf.

- Byddwn yn meithrin cynnig i aelodau sy’n creu gwerth i bawb. Byddwn yn datblygu gwaith yn seiliedig ar genhadaeth ar draws yr aelodaeth yng Nghymru drwy ddatblygu strategaeth aelodaeth.
- Byddwn yn adeiladu ar ein gweithgareddau i gryfhau gweithlu ein haelodau drwy hyfforddi, datblygu a meithrin capasiti.
- Byddwn yn cysylltu ein haelod-wasanaethau ag ymchwil gan sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar offer, damcaniaethau ac arferion blaengar i gyfoethogi’r gwasanaeth a ddarperir.
- Byddwn yn cefnogi ein haelodau i ddatblygu modelau recriwtio a chadw cynaliadwy.
- Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â’n haelodau i sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu cynllunio i ymateb i ormesoedd croestoriadol.
- Byddwn yn cefnogi aelodau i gyflawni’r Safon Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol ac achrediadau penodol eraill yn ymwneud â VAWDASV i dystio i ansawdd eu gwasanaethau.

3

Galluogi aelodau i gyflwyno ymateb cynaliadwy, effeithiol a chroestoriadol i VAWDASV.



# 4

# Arwain cydweithio.



## Ein huchelgeisiau

"dyw'r partneriaethau gorau ddim yn dibynnu ar nod cyffredin yn unig ond ar lwybr a rennir o gydraddoldeb, dyhead a chryn dipyn o angerdd" - Sarah Maclean

Defnyddio ein safle cenedlaethol i fynd ati'n rhagweithiol i arwain cydweithio a phartneriaeth sy'n fuddiol i'r sector a holl oroeswyr VAWDASV.

Mae angen cydlynu a chydweithio sylweddol er mwyn dileu VAWDASV a sicrhau bod goroeswyr cam-drin yn derbyn gwasanaethau amserol a phriodol i gynorthwyo eu hadferiad. Does neb yn gallu gwneud hyn ar eu pen eu hunain. Byddwn yn defnyddio ein safle cenedlaethol i gydweddu gweithredu presennol yn well, ysgogi partneriaethau newydd a chreu galwad glir am weithredu lle ceir bylchau er mwyn sicrhau bod y frwydr i ddileu VAWDASV yn llwyddo.

- Byddwn ni'n hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o ddull systemau cyfan, gan sicrhau bod adnoddau a buddsoddi yn cynyddu.
- Byddwn yn cynyddu addysg a dealltwriaeth o'r angen hanfodol am bartneriaethau cyfunol wedi'u cydlynu er mwyn dileu pob math o VAWDASV.
- Byddwn yn defnyddio data i nodi bylchau critigol yn y gwasanaethau ac mewn gwybodaeth ledled Cymru ac yn anelu at eu llenwi.
- Byddwn yn cysylltu sefydliadau a grwpiau i rannu arfer gorau'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn hybu arfer effeithiol wedi'i werthuso a helpu i feithrin diwylliant o ddysgu ledled Cymru.
- Byddwn yn meithrin partneriaethau gyda sefydliadau a chyrff statudol y tu allan i Gymru i sicrhau bod y cyd-destun Cymreig yn cael ei ddeall a'i ystyried wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ddiogelwch menywod a phlant yng Nghymru.

# Galluogwyr strategol

Er mwyn cynnal sylfaen gref i gynorthwyo gyda gwireddu ein huchelgeisiau rydym ni'n dymuno buddsoddi amser yn y galluogwyr strategol canlynol. Nid yw'r rhain yn nodau strategol ynddynt eu hunain, ond rydym ni'n cydnabod eu bod yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth. Byddwn yn monitro ac yn tracio ein perfformiad yn y meysydd hyn, yn ogystal â chynnydd yn erbyn ein huchelgeisiau.

- **Cynaladwyedd ariannol** nad yw'n cystadlu nac yn difreinio ein haelodaeth.
- **Arloesi digidol** sy'n cyfoethogi ein hallbynnau a'n perthnasoedd.
- **Dull croestoriadol** sydd wir wedi'i wreiddio ledled y sefydliad ac ym mhob peth a wnawn.
- **Pobl a dywyllant** - sicrhau ein bod yn denu, yn cadw ac yn datblygu'r talentau a'r arbenigedd gorau.
- Ysgogi a chydlynu **gweithredu ar y cyd** gan gydnabod ein bod yn gryfach gyda'n gilydd.
- Cefnogi a **chynnwys** yr aelod-wasanaethau i amlygu eu harbenigedd a chynyddu eu dylanwad a'u heffaith.
- **Tyfu** ein rhwydwaith o oroeswyr i sicrhau bod lleisiau'r rheini sydd â phrofiad bywyd o bob math o VAWDASV, gan gynnwys y rheini sy'n aml yn cael eu hymyleiddio, wrth galon penderfyniadau sector cyhoeddus a llywodraethol er mwyn cyflawni dull croestoriadol, gwrth hiliol a chynhwysol.



# Y gwahaniaeth y byddwn ni'n ei wneud

Erbyn 2029 byddwn yn gwybod a fyddwn ni wedi cyflawni ein huchelgeisiau os...

## 1 Atal VAWDASV

Rydym ni wedi adeiladu mudiad o aelodau a chefnogwyr sy'n rhannu ein gweledigaeth.

Mae pob ardal yng Nghymru'n defnyddio Dull Cymdeithas Gyfan.

Mae 90% o unigolion sy'n dilyn hyfforddiant wedi cynyddu eu dealltwriaeth o VAWDASV ac yn gwybod sut i ymateb yn effeithiol.

## 2 Dylanwadu ar newid

Mae polisi cenedlaethol ar waith sy'n adlewyrchu ein hymgyrchoedd, dylanwad ac agenda i ddileu VAWDASV.

Mae 90% o fenywod yn Rhwydwaith y Goroeswyr yn credu bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn dylanwadu ar newid.

Rydym ni wedi cyflawni 10 darn newydd o ymchwil.

## 3 Galluogi aelodau

Mae 80% o'r aelodau'n credu ein bod yn rhagori ar y disgwyliadau.

Ceir cyllid cynaliadwy a rhagweladwy ar gyfer yr holl wasanaethau VAWDASV arbenigol annibynnol.

Rydym ni wedi rhoi offeryn digidol ar waith sy'n cyflenwi gwerth i'n haelodau.

## 4 Arwain cydweithio

Cydnabyddir mai ni yw'r dewis cyntaf o blith sefydliadau yng Nghymru wrth geisio cyngor a chymorth ar VAWDASV ac mae asiantaethau statudol yn rheolaidd yn gofyn i ni weithio ochr yn ochr â nhw.

Gallwn roi tystiolaeth o ymatebion cymunedol wedi'u cydlynu ar gyfer mynd i'r afael â VAWDASV.

Mae cyd-destun Cymru'n cael ei ddeall a'i ystyried wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ddiogelwch menywod a phlant.




Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469

Dilynwch ni:
@welshwomensaid

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** | **Live Fear Free Helpline**

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

**Cymorth i Ferched Cymru**
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Hawlfraint © Cymorth i Ferched Cymru 2024. Cedwir pob hawl.